

Pwysigrwydd Eiriolaeth 9

Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn



Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	3
2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn	4
Cyflwyniad	4
Methodoleg	4
Canfyddiadau allweddol ers Pwysigrwydd Eiriolaeth	5
Y gwasanaethau a'r bobl rydyn ni wedi eu cefnogi	6
Staff a gwirfoddolwyr eiriolaeth	7
Gwasanaethau eiriolaeth sydd wedi cael eu hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru	7
Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp ehangach o gleientiaid, ond mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth	7
Effaith yr argyfwng costau byw	9
Iaith	10
Ansawdd a safonau	10
Casgliadau ac argymhellion	11
3. Datblygiadau Eiriolaeth yng Nghymru	14
4. Cydnabyddiaethau	15

1. Crynodeb Gweithredol

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 yn rhoi cipolwg wedi'i ddiweddarau ar ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn.

Mae'r cyfanswm o bobl sy'n cael eu cefnogi, eiriolwyr taledig a gwasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi gostwng ers i'r arolwg diwethaf gael ei gyhoeddi yn 2022. Bu cynnydd bychan yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn a chynnydd sylweddol yn nifer yr eiriolwyr gwirfoddol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru.

Gwellwyd ein dadansoddiad trwy gyfweiliadau dilynol gyda rhai ymatebwyr, ynghyd â thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru. Datgelodd y rhain fod llawer o'r gostyngiadau wedi digwydd oherwydd gostyngiadau cyllid mewn termau real. Adroddir bod y gostyngiadau hyn wedi deillio o'r diffyg cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol a chyfyngiadau i'r cyllidebau a gynigir gan gomisiynwyr statudol. Yn aml, mae'r cyllid yn ansicr ac ni fydd yn ymestyn i'r tymor hir, gydag estyniadau cyllid blwyddyn yn cael eu cynnig ar y funud olaf.

Fel y rhagwelwyd yn ystod arolygon blaenorol Pwysigrwydd Eiriolaeth, mae cyflawni gofynion statudol ar gyfer comisiynu eiriolaeth wedi dargyfeirio cyllid oddi wrth fathau eraill o eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned, gan arwain at lai o ystod o'r gwasanaethau hyn ac mae rhai sefydliadau wedi dod i ben neu nid ydyn nhw'n cynnig gwasanaethau eiriolaeth bellach.

Gyda'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o bobl ledled Cymru, mae cynnydd yn nifer a chymhlethdod atgyfeiriadau wedi rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau eiriolaeth ar

adeg pan mae'r mwyafrif wedi lleihau cyllid, gwasanaethau ac eiriolwyr. Mae cynnydd sylweddol ac esbonyddol mewn achosion eiriolaeth rhieni a gostyngiad yn ystod a nifer y gwasanaethau cymorth eraill i gyfeirio pobl atynt hefyd wedi cynyddu'r pwysau ar wasanaethau eiriolaeth. Yn gyffredinol, mae'r galw cynyddol a chymhlethdod achosion yn golygu bod llai o bobl yn cael eu cefnogi ac mae llawer o sefydliadau yn gweithredu rhestrau aros am y tro cyntaf.

Mae'r argyfwng costau byw a'r lefelau uchel o chwyddiant hefyd wedi effeithio'n bersonol ar lawer o eiriolwyr. Gwaethygyd yr heriau hyn gan y diffyg cynnydd mewn cyflogau eiriolwyr, a ystyrir yn gyffredinol eu bod yn is na rhai proffesiynau medrus a chymwys tebyg. Mae cymhlethdod cynyddol gwaith achos wedi rhoi mwy o bwysau ar eiriolwyr. I lawer o sefydliadau mae wedi dod yn fwyfwy heriol felly i gadw a recriwtio eiriolwyr.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae eiriolwyr ledled Cymru yn parhau i ymdrechu i gynnig y cymorth gorau posibl i bobl sy'n ceisio cymorth i ddeall eu hawliau a lleisio eu barn.

Mae Age Cymru yn falch o nodi'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth arbenigol ar gyfer pobl hŷn, wrth bryderu am y nifer is o sefydliadau ac eiriolwyr cyflogedig sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol. Mae'r gostyngiadau cyffredinol mewn cymorth ehangach y gallai pobl hŷn gael mynediad atynt hefyd yn peri pryder, gan arwain at lai o gyfleoedd i bobl hŷn gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal, ac eiriolaeth yn y gymuned.

2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn

Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno Pwysigrwydd Eiriolaeth 9, ein 9fed adroddiad ar ddarpariaeth eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn.

Dros y 18 mlynedd diwethaf, mae Age Cymru wedi adolygu argaeledd gwasanaethau eiriolaeth, materion yn ymwneud â chyllido a chynaliadwyedd gwasanaethau eiriolaeth, ansawdd gwasanaeth, hyfforddi eiriolwyr, rôl eiriolaeth o ran diogelu, hygyrchedd o ran iaith a gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth.

Defnyddiwyd ein tystiolaeth i ddylanwadu ar gyllidwyr grant, comisiynwyr a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Rydym wedi galw am roi terfyn ar y loteri cod post o argaeledd, am ddull mwy cyson o ariannu, er mwyn sicrhau mwy o gynaliadwyedd o fewn y sector ac, yn bwysicaf oll, i bobl sydd angen cefnogaeth y gwasanaethau hyn gael mynediad lle bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd alw am ddyletswydd statudol newydd ar gyfer eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf).

Mae eiriolaeth annibynnol yn wasanaeth hanfodol i unigolion sicrhau bod y person (a'i ganlyniadau lles) yn cael ei roi wrth wraidd gwaith gwasanaethau cymorth. Mae eiriolaeth annibynnol yn rhoi llais, dewis a rheolaeth i ddinasyddion dros gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Bu datblygiadau sylweddol ym maes eiriolaeth annibynnol yn y cyfnod rhwng Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 (2016), ac Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 (2024). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob unigolyn yng Nghymru o dan

amgylchiadau penodol gan gynnwys (ond nid yn unig) asesu, cynllunio gofal, adolygu a diogelu. Mae bron pob awdurdod lleol bellach wedi comisiynu gwasanaethau i gydymffurfio â'r gofynion hyn, gyda llawer wedi adolygu ac ail-dendro'r gwasanaethau hyn o leiaf unwaith. Cynhaliwyd Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn ystod pandemig y Coronafeirws ac mae'r arolwg diweddaraf hwn wedi'i gynnal yn ystod yr argyfwng costau byw dilynol. Mae'r ddau yn ymdrin â chyfnodau arbennig o heriol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, eiriolwyr a chleientiaid.

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 yn cyflwyno canfyddiadau ein harolwg diweddaraf. Mae'n archwilio'r canfyddiadau yng ngoleuni'r gofyniad parhaus ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol a gomisiynir a'r angen am ystod eang o fathau eraill o eiriolaeth ar adeg o heriau ariannol cynyddol i'r holl randdeiliaid. Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 yn rhoi cipolwg bras ar y sefyllfa bresennol yng Nghymru.

Methodoleg

Defnyddiwyd arolwg ar-lein i ddosbarthu ein cwestiynau i ddarparwyr. Mae gennym wybodaeth helaeth o'r sector eiriolaeth yng Nghymru ond gwnaethom gynnal ymarfer pellach desg i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymaint o ddarparwyr â phosibl.

Mae ymatebwyr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunan-ddethol. Gofynnir am ymatebion gan sefydliadau sy'n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ledled Cymru. Cesglir gwybodaeth hefyd am y cymorth a roddir i bobl hŷn naill ai drwy wasanaethau penodol neu fel rhan o'r grŵp cleientiaid ehangach. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ni allwn warantu bod gennym ddata gan 100% o ddarparwyr.

Roedd y data a gasglwyd gennym yn hydredol, ac felly'n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres. Rydym wedi tynnu data i baentio'r darlun mwyaf cyflawn o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, ac felly mae'n ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion.

Yn wreiddiol, gwnaethom anfon yr arolwg allan ym mis Ionawr 2024, gan gysylltu'n uniongyrchol â chymaint o ddarparwyr ag y gallwn, gan gynnwys y rhai yr oeddem eisoes wedi derbyn ymatebion ganddynt i arolygon blaenorol.

Canfyddiadau allweddol

Cynhaliwyd ein harolwg diwethaf Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn 2022. Rydym yn cofnodi canlyniadau 2024 yn erbyn canlyniadau 2022:

- Bu cynnydd bychan yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth (o 19 i 20) yn benodol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae gostyngiad o 19% wedi bod mewn gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i oedolion o bob oed ledled Cymru. Mae'r gostyngiad o 89 i 72 o wasanaethau.
- Mae 30 o eiriolwyr cyflogedig a 128 o eiriolwyr gwirfoddol sy'n darparu eiriolaeth yn benodol i bobl hŷn. Mae'r ffigur cyfunol hwn o 158 wedi cynyddu 20%.
- Mae 142 o eiriolwyr cyflogedig llawn amser yn gweithio ym mhob gwasanaeth eiriolaeth ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng 5% ers 2022.
- Mae 64 o eiriolwyr rhan-amser â thâl sy'n ostyngiad o 19%.
- Mae 171 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. Mae hyn bron i 50% yn uwch na'r ffigur yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 8.
- Cyfanswm nifer y bobl hŷn a gefnogwyd ar draws yr holl wasanaethau dros y 12 mis diwethaf oedd 7,831, gostyngiad o dros 1,000 o Pwysigrwydd Eiriolaeth 8.
- Cefnogwyd 815 yn llai o bobl hŷn gan wasanaethau eiriolaeth a ariannwyd yn benodol ar gyfer pobl hŷn nag yn 2022. Mae hyn yn ostyngiad o 13%.
- Gostyngodd cyfanswm y bobl a gefnogir ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf 35% i 12,760.
- Mae bron i hanner y sefydliadau sy'n cwblhau'r arolwg yn gweithredu rhestr aros weithredol.
- Mae gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn parhau i fodoli ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach yn parhau i gwmpasu pob awdurdod lleol.
- Ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolwg, nid oedd un ardal awdurdod lleol yng Nghymru wedi comisiynu eu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



Y gwasanaethau a'r bobl rydyn ni wedi eu cefnogi

	Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016	Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018	Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020	Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 2022	Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 2024
Cyfanswm yr ymatebwyr	22	21	33	27	21
Nifer y gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn	19	13	12	19	20
Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn	13	7	6	10	9
Nifer y gwasanaethau eiriolaeth eraill a ariennir lle mae pobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleientiaid	44	41	76	89	72
Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn	15	18	30	24	21
Cyfanswm y bobl a gefnogir	Ni chawsant eu holi	10,402	16,909	19,592	12,760
Cyfanswm y bobl hŷn a gefnogir	6,412	5,466	8,153	9,090	7,831
Nifer o ardaloedd Awdurdod Lleol gyda gwasanaethau wedi'u hariannu ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach	22	22	22	22	22
Nifer o ardaloedd Awdurdod Lleol gyda gwasanaethau wedi'u hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn	17	15	15	22	22

Sylwch y gallai fod gan un darparwr fwy nag un gwasanaeth eiriolaeth, a bydd gan rai wasanaethau yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach.



Staff a gwirfoddolwyr eiriolaeth

	Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020		Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 2022		Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 2024	
	Gwasanaethau pobl hŷn	Pob math o wasanaeth	Gwasanaethau pobl hŷn	Pob math o wasanaeth	Gwasanaethau pobl hŷn	Pob math o wasanaeth
Llaw'n Amser	8	99	23	150	16	142
Rhan Amser	10	69	18	79	14	64
Gwirfoddol	13	127	91	117	128	171

Gwasanaethau eiriolaeth sydd wedi cael eu hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

Mae ein harolwg yn awgrymu bod 20 o wasanaethau yn cael eu hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â 19 yn 2022. Mae nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi gostwng o 10 i naw. Mae pedwar o'r sefydliadau'n darparu un gwasanaeth eiriolaeth yr un, dau yn darparu dau wasanaeth yr un, dau yn darparu tri gwasanaeth gyda'r sefydliad sy'n weddill sy'n darparu chwe gwasanaeth.

Mae nifer y bobl hŷn a gefnogwyd yn uniongyrchol gan y gwasanaethau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gostwng, gan ostwng o 6,220 yn 2022 i 5,405 yn 2024. Ar y cyfan, mae'r nifer o eiriolwyr wedi cynyddu o 132 yn 2022 i 158 yn 2024, gyda gostyngiad yn nifer yr eiriolwyr cyflogedig yn llai na'r cynnydd sylweddol yn nifer yr eiriolwyr gwirfoddol. Yn gyffredinol, bydd eiriolwyr cyflogedig yn delio ag achosion mwy cymhleth, yn aml o fewn y mathau statudol o eiriolaeth, tra bod eiriolwyr gwirfoddol yn gyffredinol yn delio ag achosion ataliol lefel is.

Dywedodd un o'n ymatebwyr eu bod yn cael eu hariannu i ddarparu ystod eang o wasanaethau eiriolaeth ar draws y categorïau a restrir yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Yn ddaeryddol, mae gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn parhau

i fod ar gael ym mhob rhan o Gymru yn rhannol oherwydd dau brosiect a ariennir yn genedlaethol. Yn 2020, dim ond mewn 15 ardal awdurdod lleol y bu sefydliadau sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd pobl hŷn hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth gan wasanaethau gyda grŵp cleientiaid ehangach gan fod gan bob ardal awdurdod lleol o leiaf saith math gwahanol o wasanaethau eiriolaeth, fel y nodwyd trwy fapio gwasanaethau eiriolaeth a gynhelir gyda chymorth gwasanaethau sy'n mynychu'r cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru.

Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp ehangach o gleientiaid, ond mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth

Mae nifer yr ymatebion i'r arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 wedi gostwng o'i gymharu ag ymgymeriad blaenorol yr arolwg. Cwblhaodd 21 o sefydliadau'r arolwg hwn o'i gymharu â 27 yn 2022. Mae hyn yn cynrychioli dychwelyd i'r cyfraddau ymateb a dderbyniwyd cyn yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 lle ymatebodd uchafswm o ychydig dros 20 i bob un o'r arolygon blaenorol. O ganlyniad i'r gostyngiad hwn, mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer pob maes darparu gwasanaethau, ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion o bob oed, wedi gostwng o'u cymharu â'r adroddiad blaenorol o 2022.

Ers 2022 mae nifer y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach lle mae pobl hŷn hefyd yn cael eu cefnogi wedi gostwng 19% i 72 yn 2024. Mae nifer y bobl a gefnogir gan y gwasanaethau hyn hefyd wedi gostwng o 19,592 i 12,760 yn 2024. At ei gilydd, mae cyfanswm y bobl hŷn sy'n derbyn cymorth eiriolaeth hefyd wedi gostwng o 9,090 i 7,831.

Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn oedd 21. Mae nifer yr eiriolwyr llawn amser a rhan-amser wedi gostwng ychydig; Fodd bynnag, mae nifer yr eiriolwyr gwirfoddol wedi cynyddu'n sylweddol bron i 50% o 117 i 171 yn 2024.

Mae bron i hanner y sefydliadau yn gweithredu rhestr aros weithredol ar hyn o bryd. Nid oedd y cwestiwn hwn wedi'i ofyn o'r blaen gan mai ychydig iawn, os o gwbl, oedd wedi crybwyll cael rhestrau aros cyn 2022. Roedd trafodaethau yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ranbarthol wedi nodi cynnydd sylweddol mewn rhestrau aros ac y byddai'n ddefnyddiol cofnodi a monitro arolygon Pwysigrwydd Eiriolaeth yn y dyfodol.

Mae nifer yr ardaloedd awdurdodau lleol lle mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynwyd o dan y Ddeddf bellach yn cael ei chyflawni yn parhau i fod yn 21. Mae'r un ardal awdurdod lleol nad yw wedi comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ffurfiol o dan y Ddeddf eto yn prynu cymorth eiriolaeth pan fo angen.

Mae darpariaeth ddaearyddol gyflawn o wasanaethau eiriolaeth o ryw fath ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Fodd bynnag, er bod ystod o wahanol fathau o wasanaethau eiriolaeth yn parhau i gael eu darparu ledled Cymru, nid yw mor amrywiol nac mor helaeth ag yr adroddwyd yn flaenorol. Gan adeiladu ar ganlyniadau'r arolwg, mae Age Cymru yn parhau i fapio'r ystod o wasanaethau eiriolaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru¹, gan gynnal cyfweiliadau dilynol lle bo angen.

Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw rhai mathau anstatudol o eiriolaeth ar gael bellach mewn rhai meysydd, yn aml oherwydd bod y cyllid ar gyfer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi cael ei leihau neu ei ddileu.

Sylwadau ychwanegol a wnaed gan wasanaethau:

“Rwy'n credu bod angen i awdurdodau lleol edrych ar effaith contractau'r eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth anstatudol. Heb gyllid craidd diogel, ni fydd sefydliadau gwirfoddol/trydydd sector i gysylltu â nhw a/neu gyfeirio atynt”.

“Mae yna lawer o fylchau o hyd mewn cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar y cyllid presennol”.

“Mae angen cyllid ar gyfer eiriolaeth gyffredinol”.

“Rydym wedi sylwi bod y gwaith achos a wnaed gan ein heiriolwyr wedi dod yn fwy cymhleth sy'n rhoi mwy o bwysau ar ein gwasanaethau. Mae hyn yn golygu na all yr eiriolwyr ymgymryd â chynifer o achosion oherwydd cymhlethdod yr achosion y maent yn gweithio arnynt, mae hyn yn arwain at fwy o straen, mwy o absenoldeb salwch sydd wedyn yn rhoi mwy o bwysau ar eiriolwyr sydd yn gweithio. Oherwydd y diffyg cynnydd mewn cyllid, rydym yn ei chael hi'n anodd cynyddu cyflogau ac mae staff yn gadael. Mae wedi dod yn gylch cythreulig”.



¹Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru - Age Cymru | Advocacy services in Wales (ageuk.org.uk)

Effaith yr argyfwng costau byw

Yn ystod y cyfnod ers cyhoeddi Pwysigrwydd Eiriolaeth 8 yn 2022, mae Cymru wedi bod yn profi argyfwng costau byw. Roedd trafodaethau yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ranbarthol wedi dangos effaith sylweddol ar gleientiaid, eiriolwyr a gwasanaethau. Felly, cafodd cwestiwn ychwanegol ei gynnwys yn arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 a oedd yn gofyn i sefydliadau pa effaith, os o gwbl, gafodd yr argyfwng costau byw ar eu gwasanaethau.

Derbyniwyd sylwadau i'r cwestiwn hwn gan bron pob un o'r sefydliadau a gwblhaodd yr arolwg. Roedd yr holl sylwadau'n ymwneud ag amgylchiadau cynyddol heriol i bawb sy'n ymwneud ag eiriolaeth. Nododd llawer ohonynt anghenion cynyddol am eiriolaeth a bod achosion yn dod yn fwy cymhleth, bod materion lluosog y tu hwnt i'r atgyfeiriad cychwynnol, gyda chleientiaid angen mwy o gefnogaeth eiriolaeth dros gyfnod hwy o amser. Soniwyd am ostyngiad yn ystod a nifer y gwasanaethau cymorth eraill i gyfeirio pobl atynt am gymorth, ynghyd â her gysylltiedig cleientiaid sydd ag ychydig neu ddim opsiynau amgen o gwbl yn gobeithio y byddai eiriolwyr yn gallu eu cefnogi gyda materion a aeth y tu hwnt i ffiniau eiriolaeth.

Dyweddodd llawer o wasanaethau eiriolaeth nad oeddent wedi derbyn fawr ddim cynnydd mewn cyllid gan gomisiynwyr os o gwbl, a lle'r oedd contractau wedi'u hailgomisiynu, roedd y cyllidebau yn aml wedi aros yn segur neu wedi cael eu lleihau. Mae chwyddiant wedi aros yn uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac adroddwyd mai effaith y gostyngiadau termau real hyn oedd bod gwasanaethau wedi bod yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cyflawni eu hymrwymiaadau ariannol, gan gynnwys gallu cynnig cynnydd i gyflogau eu heiriolwyr. Gyda chyflogau eiriolaeth eisoes yn cael eu hystyried gan lawer yn is na chyflogau medrus a chymwys tebyg, adroddwyd bod diffyg cynnydd mewn cyflogau eiriolwyr wedi ehangu'r bwlch hwn, gan arwain at heriau ariannol cynyddol i'r eiriolwyr eu hunain a heriau cynyddol i wasanaethau gadw a recriwtio eiriolwyr.

Mae sampl o'r sylwadau a wnaed gan wasanaethau yn cynnwys:

“Mwy o gleientiaid gyda mwy o broblemau sydd ddim yn medru cael eu datrys gan eiriolaeth. Mae'n rhaid i ni gyfeirio, fodd bynnag mae angen eiriolaeth gymunedol”.

“Mae angen mwy o gyllid ar sefydliadau, cyllid hyblyg a chefnogaeth ychwanegol er mwyn rhoi cynnydd cyflog i staff yn unol â chostau byw. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau gydag unigolion angen cymorth eiriolaeth oherwydd lefelau straen sydd ynghlwm â materion ariannol”.

“Mae cyllid yn ansicr ac nid yw'n gynaliadwy ac mae cyllid blwyddyn heb unrhyw wybodaeth tan y funud olaf ynglŷn ag ydyn ni'n cael mwy o gyllid neu beidio. Mae'n cael effaith fawr ar y gwasanaeth, y staff a'n cleientiaid”.

“Oherwydd nad ydym wedi cael unrhyw gynnydd yn arian ein contract, rydym yn ei chael hi'n anodd cynyddu cyflogau sy'n cyd-fynd â'r cynnydd mewn chwyddiant. Rydym felly yn colli staff i wasanaethau eraill, yn enwedig yn y sector statudol, sy'n gallu cynnig swyddi â chyflogau gwell”.

“Nid yw cyflogau eiriolwyr wedi cynyddu yn unol â chwyddiant neu â rolau cymwys. Mae hyn o ganlyniad i ddiffyg neu ychydig iawn o gynnydd mewn cyllid ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio”.



Iaith

Wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed a bod eu dymuniadau'n cael eu parchu, mae angen cynnig cefnogaeth yn y cyfrwng y maent fwyaf cyfforddus ag ef p'un a yw hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae canran y sefydliadau sydd ag eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig o 60% i 57% ers i Eiriolaeth Gyfrif 8. Mae nifer gwirioneddol yr eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi gostwng o 52 i 45.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar gefnogaeth eiriolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel, fodd bynnag, bu cynnydd bach. Yn flaenorol, dywedodd 90% o'r gwasanaethau fod llai na 10% neu ddim o'u cefnogaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Mae'r ffigur hwn bellach yn 80%. Mae pedwar sefydliad yn dweud bod llawer mwy sylweddol o Gymraeg yn cael ei defnyddio gydag un yn dweud bod y Gymraeg wedi cael ei defnyddio mewn 31-40% o'u gwaith achos.

Ansawdd a safonau

Yn 2022, roedd gan 63% o'r ymatebwyr y Marc Perfformiad Ansawdd. Yn 2024 mae'r ffigur hwn wedi gostwng ychydig i 57%, gydag ychydig iawn o sefydliadau'n gweithio tuag at gyflawni'r Marc Perfformiad Ansawdd. Ar y cyfan, mae canran y sefydliadau nad oes ganddynt y Marc Perfformiad Ansawdd ac nad ydynt yn gweithio tuag ato wedi aros ar oddeutu 33%.

Mae cyfran y sefydliadau y mae gan eu staff Gymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol City and Guilds bellach neu sy'n gweithio tuag at ei gyflawni wedi aros ychydig dros 80%. Mae nifer y sefydliadau sydd hefyd ag eiriolwyr sydd naill ai wedi neu sydd wrthi'n gweithio tuag at y cymhwyster BA mewn Eiriolaeth wedi gostwng o dri i un. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod pedwar sefydliad nad oes ganddynt eiriolwr gyda chymhwyster ffurfiol.

Pan ofynnwyd iddynt am anghenion hyfforddi, soniwyd am Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid; Dilemâu Eiriolaeth; Sgyrsiau anodd; Ysgrifennu a Chofnodi Nodiadau Achos a Galluedd Meddyliol, Diogelu Ariannol a'r Llys Gwarchod.



Casgliadau ac argymhellion

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 9 yn rhoi cipolwg wedi'i ddiweddarau ar ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Mae nifer y bobl sydd wedi derbyn cefnogaeth, eiriolwyr taledig a gwasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi gostwng ers i'r arolwg diwethaf gael ei gyhoeddi yn 2022.

Yr unig feysydd lle nodwyd cynnydd oedd nifer y gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn a nifer yr eiriolwyr gwirfoddol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru.

Mae'r sylwadau a gyflwynwyd i gwestiynau Pwysigrwydd Eiriolaeth 9, ynghyd â chyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru yn awgrymu bod llawer o'r gostyngiadau sydd wedi effeithio ar wasanaethau wedi digwydd oherwydd gostyngiadau cyllid mewn termau real. Adroddir bod y gostyngiadau hyn wedi deillio o ddiffyg cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yn wahanol i'r cyllid a ddarperir i gomisiynu'r mathau statudol eraill o eiriolaeth, a chyfyngiadau i'r cyllidebau a gynigir gan gomisiynwyr statudol. Yn aml, mae'r cyllid yn ansicr ac nid yw'n effeithio ar y tymor hir, gydag estyniadau cyllid blwyddyn yn cael eu cynnig ar y funud olaf.

Fel y rhagwelwyd yn ystod arolygon blaenorol Pwysigrwydd Eiriolaeth, ymddengys bod cyflawni gofynion statudol ar gyfer comisiynu eiriolaeth wedi dargyfeirio cyllid oddi wrth fathau eraill o eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned gan arwain at lai o ystod o'r gwasanaethau hyn. Mae rhai sefydliadau wedi gorfod dod i ben, neu nid ydyn



nhw bellach yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth. Mae ail-gomisiynu rhai mathau o eiriolaeth statudol hefyd wedi arwain at nifer llai o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, ac yn 2022 bu'n rhaid i un sefydliad eiriolaeth mawr ddod i ben. Mae'r newid o saith Cyngor Iechyd Cymuned rhanbarthol ar wahân i Llais, sy'n cwmpasu Cymru gyfan fel un sefydliad, hefyd wedi effeithio ar y nifer o sefydliadau a gwasanaethau a nodwyd yn yr arolwg.

Gyda'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o bobl ledled Cymru, mae'r cynnydd yn nifer a chymhlethdod atgyfeiriadau wedi rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau eiriolaeth ar adeg pan fo'r mwyafrif yn derbyn llai o gyllid, gwasanaethau ac eiriolwyr. Wrth i'r achosion ddod yn fwy cymhleth a mynnu llawer o amser, nid yw eiriolwyr wedi

Heb gyllid tymor hwy estynedig, diogel, cynaliadwy, bydd yr holl heriau a amlygwyd gan yr arolwg hwn yn parhau i gynyddu gan roi pwysau mawr ar sefydliadau eiriolaeth ac eiriolwyr.

gallu cefnogi cymaint o achosion ar unrhyw un adeg, sy'n golygu bod llai o bobl yn cael eu cefnogi ac mae llawer o sefydliadau yn gweithredu rhestrau aros am y tro cyntaf. Mae'r gostyngiad yn ystod a nifer y gwasanaethau cymorth eraill i gyfeirio pobl atynt am gymorth yn golygu bod pobl yn chwilio am eiriolwyr i'w cefnogi gyda materion sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau eiriolaeth. Mae hyn i gyd wedi arwain at "gylch dieflig", fel gwnaeth un ymatebwr ddisgrifio'r sefyllfa ac a ddyfynnwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae cyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru hefyd wedi nodi bod cynnydd sylweddol ac esbonyddol wedi bod yn nifer yr achosion eiriolaeth i oedolion ers 2022 lle bu'n ofynnol i eiriolwyr gefnogi rhieni plant sy'n destun achosion amddiffyn plant. Mae'r achosion hyn yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser o'i gymharu ag achosion eraill, gydag achosion yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i eiriolwyr fynychu achos llys am ddyddiau ar y tro ac felly ni allant gefnogi cleientiaid eraill yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn y mwyafrif o achosion, ni ddyrannwyd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cymorth na ragwelwyd ar adeg comisiynu. Heb gyllid ychwanegol i alluogi eiriolwyr ychwanegol i gefnogi cleientiaid ag anghenion cymorth eraill, mae cyfanswm y bobl a gefnogir wedi lleihau ac mae'r rhestrau aros wedi cynyddu.

Mae'r argyfwng costau byw a'r lefelau uchel o chwyddiant hefyd wedi effeithio'n bersonol ar lawer o eiriolwyr.

Gwaethyngwyd yr heriau hyn gan y diffyg cynnydd mewn cyflogau eiriolwyr, a ystyrir yn gyffredinol eu bod yn is na rhai proffesiynau medrus a chymwys tebyg. Mae cymhlethdod cynyddol gwaith achos wedi rhoi mwy o bwysau ar eiriolwyr, gan arwain at fwy o straen, mwy o absenoldeb salwch sydd wedyn yn rhoi mwy o bwysau ar eiriolwyr sydd yn gweithio. I lawer o sefydliadau mae wedi dod yn fwyfwy heriol felly i gadw a recriwtio eiriolwyr.

Ychydig iawn o sefydliadau sy'n dweud eu bod yn gallu recriwtio eiriolwyr cymwys, gyda'r rhan fwyaf yn gorfod cefnogi eiriolwyr dan hyfforddiant i gwblhau'r cymhwyster eiriolaeth wrth ymgymryd â llwyth achos llai. Mae'r cymhwyster eirioli a ailstrwythurwyd yn ddiweddar yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau na'r fersiwn flaenorol, gan arwain at oedi estynedig cyn y gall eiriolwyr newydd ymgymryd â llwyth achos llawn a chaffael y wybodaeth a'r profiad i ymgymryd ag achosion mwy cymhleth.

Mae cyfweliadau dilynol a thrafodaethau gyda darparwyr eiriolaeth yn awgrymu nad oes llawer o gynnydd o hyd o ran ymestyn dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o eiriolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth posibl neu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cyrff statudol. Yn wir, mae cyllidebau is o fewn cyrff statudol yn aml wedi arwain at fwy o drosiant gweithwyr proffesiynol nag a brofwyd o'r blaen, gan olygu bod cysylltiadau allweddol yn diflannu ac mae gostyngiad cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth a'r gofynion ar gyfer cymorth eiriolaeth. Mae gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr

iechyd proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda buddiolwyr posibl gwasanaethau eiriolaeth yn parhau i fod angen mwy o hyfforddiant a gwybodaeth.

Heb gyllid tymor hwy estynedig, diogel, cynaliadwy, bydd yr holl heriau a amlygwyd gan yr arolwg hwn yn parhau i gynyddu gan roi pwysau mawr ar sefydliadau eiriolaeth ac eiriolwyr. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae eiriolwyr ledled Cymru yn parhau i ymdrechu i gynnig y cymorth gorau posibl i bobl sy'n ceisio cymorth i ddeall eu hawliau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae Age Cymru yn falch o nodi'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau eiriolaeth arbenigol ar gyfer pobl hŷn, wrth bryderu am y nifer is o sefydliadau ac eiriolwyr cyflogedig sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol. Mae'r gostyngiadau cyffredinol mewn cymorth ehangach y gallai pobl hŷn gael mynediad ato hefyd yn peri pryder, gan arwain at lai o gyfleoedd i bobl hŷn gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnwys, atal, ac eiriolaeth yn y gymuned.

Mae Age Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac mae'n ei ystyried yn offeryn hanfodol i sicrhau lles pob dinesydd, nid lles pobl hŷn yn unig. Mi wnaeth Age Cymru ddangos hyn drwy sicrhau cyllid i eiriolaeth cyflenwi yn uniongyrchol i bobl hŷn, cefnogi'r sector eiriolaeth ehangach a chynnig cyfleoedd hyfforddi ar draws y sector eiriolaeth gyfan. Mae prosiect HOPE yn parhau i sicrhau bod eiriolaeth lefel isel, a ddarperir gan wirfoddolwyr, ar gael yn y gymuned i bobl hŷn a'u gofalwyr ym mhob rhan o Gymru. Mae'r prosiect Eiriolaeth Dementia yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i bobl hŷn ledled Cymru. Mae Age Cymru hefyd yn parhau i hyrwyddo a darparu'r cymorth a'r adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer y sector eiriolaeth yng Nghymru yn ystod GTAP.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Age Cymru drwy e-bostio advocacy@agecymru.org.uk

Sylwer:

Mae ymatebwyr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn hunan-ddethol. Mae ymatebion yn seiliedig ar bun ai os ydynt yn darparu gwasanaethau eiriolaeth wedi'u hariannu sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn neu'n cynnwys pobl hŷn fel rhan o'u grŵp cleientiaid. Er ein bod yn ymdrechu i gasglu data gan bob darparwr, nid yw cwblhau'r arolwg yn orfodol.

Roedd y data a gasglwyd gennym yn hydredol, ac felly'n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres ond rydym wedi tynnu data i baentio'r darlun llawnaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data'n ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr a dinasyddion.

Mae Age Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac mae'n ei ystyried yn offeryn hanfodol i sicrhau lles pob dinesydd, nid lles pobl hŷn yn unig.

3. Datblygiadau Eiriolaeth yng Nghymru

Yn wahanol i adroddiadau blaenorol Pwysigrwydd Eiriolaeth, ychydig iawn o ddatblygiadau deddfwriaethol sylweddol sydd wedi effeithio ar eiriolaeth yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ychydig iawn o newidiadau deddfwriaethol newydd sydd oherwydd yr effaith ar eiriolaeth yn y dyfodol agos y mae'r sector eiriolaeth yn ymwybodol ohonynt.

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw at gyflwyno a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Eiriolaeth yn ystod y Coronafeirws; y newid arfaethedig o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid i Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid; newidiadau a gynlluniwyd i'r Cynghorau Iechyd Cymuned ac eiriolaeth cwynion; y Fframwaith Cymwysterau newydd a'r cymhwyster eiriolaeth newydd a Newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl ymhlith eraill.

Mae'r newid arfaethedig o drefniadau diogelu wrth amddifadu a rhyddid i Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi'i ohirio, ac nid oes amserlen ddiwygiedig wedi'i ddosbarthu. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi'i chymhwyso i ddarparwyr statudol eiriolaeth plant, ond ni wnaed unrhyw gyhoeddiad am unrhyw gynlluniau i ymestyn hyn i'r sector eiriolaeth oedolion.

Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 8, mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi dod yn Gyrff Llais y Dinesydd ac mae'r gwasanaethau eiriolaeth cwynion y maent yn eu darparu wedi ehangu i gynnwys cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â chwynion am y gwasanaethau iechyd. Mae'r gwasanaethau eiriolaeth estynedig hyn, a elwir yn Llais, yn dal i gael eu sefydlu ar adeg ysgrifennu. Mae angen datrys llawer o faterion am eu cyfranogiad ynghylch eiriolaeth cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi y bydd eu gwaith nhw a gwaith y gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynwyd yn gorgyffwrdd.

Mae Covid-19 yn parhau i gael rhywfaint o effaith ar wasanaethau eiriolaeth gyda wardiau ysbytai a chartrefi gofal weithiau'n gosod cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae'r prif effeithiau a datblygiadau mewn eiriolaeth yng Nghymru ers 2022 wedi digwydd oherwydd y materion a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn oherwydd yr argyfwng costau byw, y diffyg cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol, cyfyngiadau'r cyllidebau a gynigir gan gomisiynwyr statudol a chyflawni gofynion statudol sy'n dargyfeirio cyllid oddi wrth fathau eraill o eiriolaeth lefel is, ataliol yn y gymuned.



4. Cydnabyddiaethau

Mae Age Cymru yn ddiolchgar i'r holl ddarparwyr gwasanaethau eiriolaeth a wnaeth roi o'u hamser i gwblhau'r arolwg ar-lein ac i'r rhai a wnaeth ganiatáu i ni gysylltu â nhw er mwyn cael ymatebion manylach i rai o'r materion a nodwyd.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb a wnaeth helpu i baratoi'r arolwg cyn iddo fynd yn fyw a phawb wnaeth gynhyrchu'r adroddiad.

Os hoffech chi mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Louise Hughes
Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth
Age Cymru
Parc St Andrews
Lôn y Frenhines
Parc Diwydiannol Bromfield
Yr Wyddgrug
Fflint
CH7 1XB
07931 904734
advocacy@agecymru.org.uk

Neu ar gyfer ymholiadau cyffredinol:

Age Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ'r Mariners
Llys Trident
Ffordd Ddwyrain Moors
Caerdydd
CF24 5TD
029 2043 1555
enquiries@agecymru.org.uk



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident,
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555 Ffacs: 029 2047 1418

E-bost: enquiries@agecymru.org.uk www.agecymru.cymru

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestrdig fel yr uchod. ©Age Cymru 2024



Dilynwch ni ar:  facebook.com/agecymru  twitter.com/agecymru